Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Y Rhaglen Cynllun Gwên

## Adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2023-2024

Medi 2024

# Cyflwyniad

Rhaglen genedlaethol i wella iechyd y geg ymysg plant Cymru yw'r Cynllun Gwên. Sail y rhaglen yw'r dystiolaeth wyddonol o ymyriadau effeithiol i atal pydredd dannedd ymysg plant, a gwybod ble a phwy sydd angen yr ymyriadau hyn fwyaf, ac fe'i darperir gan y Rhaglen Epidemioleg Ddeintyddol i Gymru.

Mae'r rhaglen yn parhau i ddatblygu'n dda wedi iddi gael ei hatal dros dro yn ystod y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, ceir heriau ar draws y system a chyfyngiadau cyllidebol sy'n llesteirio ymdrechion i gyflawni'r rhaglen yn llawn fel y nodir yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2017).

# Iechyd y Geg o fewn Rhaglen Plant Iach Cymru




Rhoddwyd hyfforddiant addysg iechyd y geg i **640** o ymwelwyr iechyd (19 o sesiynau). Cafodd **832** o weithwyr proffesiynol eraill ym maes gofal plant, gofal iechyd a chymdeithasol hyfforddiant tebyg gan y tîm Cynllun Gwên (27 o sesiynau).



Dosbarthwyd **35,544** o becynnau brwsio dannedd gartref gan ymwelwyr iechyd i deuluoedd yn ystod ymweliadau Plant Iach Cymru. Dosbarthodd ymwelwyr iechyd **16,562** o gwpanau hyfforddi yfed hefyd i deuluoedd.

# Brwsio dannedd dan oruchwyliaeth yn y feithrinfa a'r ysgol (1)





Darparodd **642** (79%) o feithrinfeydd cymwys a **531** (63%) o ysgolion cymwys raglen brwsio dannedd dan oruchwyliaeth yn 2023/24.

Cafodd **4,668** o staff mewn meithrinfeydd ac ysgolion hyfforddiant gan dîm y Cynllun Gwên, i ddarparu'r rhaglen brwsio dannedd.

Dywedodd **86%** o leoliadau fod y plant yn brwsio'u dannedd bob diwrnod ysgol.

Cynhaliodd tîm y Cynllun Gwên **3582** o ymweliadau sicrhau ansawdd yn ystod y flwyddyn.

# Brwsio dannedd dan oruchwyliaeth yn y feithrinfa a'r ysgol (2)




Cymerodd **59,079** o blant ran mewn rhaglen brwsio dannedd yn y feithrinfa neu'r ysgol gynradd yn ystod 2023/24.

Y gyfradd gydsynio gyfartalog gan rieni/gofalwyr i gymryd rhan oedd **89%.**




# Dosbarthu pecynnau i frwsio dannedd gartref

Dosbarthwyd **167,695** o becynnau i frwsio dannedd gartref mewn meithrinfeydd ac ysgolion i blant a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Cynllun Gwên, i'w hannog i frwsio eu dannedd ddwywaith y dydd gartref.



# Rhoi triniaeth farnais fflworid yn yr ysgol (1)





Manteisiodd **621** o leoliadau (75% o ysgolion cymwys) ar y rhaglen farnais fflworid.

Cafodd **549** o leoliadau ddau ymweliad ar gyfer triniaeth farnais fflworid yn ystod y flwyddyn academaidd, a chafodd **72** un ymweliad yn unig.



# Rhoi triniaeth farnais fflworid yn yr ysgol (2)




Cafodd **40,997** o blant driniaeth farnais fflworid yn yr ysgol yn ystod 2023/24.

Y gyfradd gydsynio gyfartalog gan rieni/gofalwyr oedd **77%.**

Cafodd **14,580** o blant (36%) driniaeth farnais fflworid unwaith yn ystod y flwyddyn academaidd, a chafodd **26,417** o blant (64%) driniaeth farnais fflworid ddwywaith.

Cafwyd pryderon ynghylch pydredd dannedd ymysg **8214** o blant (20%).



# Gweithlu a Gwariant

Ym mis Ebrill 2024, roedd gan y Cynllun Gwên **91.25** aelod o'r tîm cyfwerth ag amser cyflawn o fewn GIG Cymru.

Gwariodd GIG Cymru gyfanswm o **£3,883.793** er mwyn darparu'r Cynllun Gwên yn ystod 2023-2024.

Llawer o ddiolch i staff y Cynllun Gwên yn y saith bwrdd iechyd lleol am gasglu a choladu'r data monitro; ac i'r holl staff a'r partneriaid sy'n ymwneud â'r rhaglen.



GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Gweithio gyda'n gilydd
i greu Cymru iachach

Working together
for a healthier Wales